

Atodiad 2

Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda Chyngor Ysgol Gynradd Hirwaun

Dydd Iau 11 Hydref 2018 am 2:30pm

Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i godi adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun a'r newid arfaethedig yn statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn.

Yn bresennol

Esther Thomas (ET), Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant
Nicola Goodman (NG), Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Lisa Howell (LH), Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
10 aelod o Gyngor Ysgol Gynradd Hirwaun
1 aelod o staff

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Esboniodd ET fod y Cyngor yn bwriadu adeiladu ysgol newydd, fwy o faint yn Hirwaun a fyddai'n disodli'r ysgol gyfredol. Byddai'r ysgol newydd yn newydd sbon ac yn fwy na'r ysgol bresennol. Byddai'n gallu dal 390 o ddisgyblion, yn ogystal â phlant oed meithrin. Byddai'r ysgol yma ar gyfer pob plentyn sydd yn cael y rhan fwyaf o'i addysg yn Saesneg. Yna byddai Ysgol Penderyn yn dod yn ysgol Gymraeg.

Esboniodd ET fod y Cyngor o'r farn bod llawer o fanteision o gael ysgol newydd, er enghraifft:

- Adeilad modern, newydd sbon;
- Ardaloedd awyr agored newydd i chwarae ynddyn nhw a chynnal chwaraeon;
- TGCh newydd;
- Ysgol fwy i ragor o ddisgyblion fanteisio arni a rhagor o gyfleoedd i wneud rhagor o ffrindiau;
- Y cyfle i bob plentyn ddod i'r ysgol a chael defnyddio pob rhan o'r ysgol, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol (er enghraifft, os ydyn nhw'n defnyddio cadair olwyn);

- Rhagor o gyfleoedd a chyfleusterau gwell ar gyfer clybiau ar ôl ysgol.

Esboniodd ET hefyd y gallai fod rhai pethau sy'n peri pryder i rai plant, er enghraifft, efallai y bydd y rheiny sy'n byw ym Mhenderyn yn gorfod teithio'n fwy pell i gyrraedd Ysgol Gynradd Hirwaun - ond y byddai bysiau yn cael eu darparu ar eu cyfer nhw.

Yn ogystal â hynny, efallai y byddai'n well gan rai plant fod mewn ysgol lai o faint gyda llai o ddisgyblion.

Cafodd dau glip fideo eu chwarae o ddwy ysgol sydd newydd eu hadeiladu yng Nghwmaman a Thonyrefail yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Esboniodd ET mai pwrpas y cyfarfod gyda'r disgyblion heddiw oedd i'r Cyngor glywed a chofnodi beth mae'r disgyblion yn ei feddwl am y cynigion, gan fod eu barn yn bwysig iawn i'r Cyngor.

Er mwyn hwyluso'r drafodaeth, gofynnodd ET rai cwestiynau i'r disgyblion:-

Cwestiwn 1

Ydych chi'n meddwl bod y cynnig yn syniad da?

Atebion

- Ymateb cyffredinol - Ydyn.

Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

- Os bydd pobl newydd yn dechrau yn yr ysgol, bydd yn well ganddyn nhw fod mewn ysgol newydd.
- Gall pobl ddysgu mwy a fyddan nhw ddim eisiau symud o ysgol newydd.
- Adnoddau gwell ar gyfer dysgu gwell.
- Man awyr agored gwell.
- Byddai llai o gerrig a choncrid yn yr iard.
- Byddai mwy o ddiogelwch, fel y byddai'r plant bach yn ddiogel. -
Gatiau a ffensys uwch i gadw'n ddiogel a chadw peli i mewn.
- Byddai drysau electronig yn cael eu gwerthfawrogi yn yr ysgol.
- Llai o ddisgleirdeb o'r ffenestri ar sgriniau.
- TGCh well yn yr ysgol newydd.
- Byddai setiau teledu mwy o faint yn dda.
- Byddai dosbarth awyr agored yn cael ei werthfawrogi.

Cwestiwn 2

Ydych chi'n hoffi'r syniad o adeilad ysgol newydd?

Atebion

- Ymateb cyffredinol - Ydyn.
- Fel Ysgol Gymuned Newydd Aberdâr

Cwestiwn 3

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol bresennol?

Atebion

- Mae'n fach felly does dim synau uchel.
- Pa mor ffeind yw'r athrawon.
- Mae'n ysgol dda er ei bod hi'n fach.
- Does dim cymaint o bobl oherwydd ei bod hi'n fach.
- Mae maint yr ystafelloedd dosbarth yn addas ond byddai'n well cael rhagor o ddesgiau fel bod modd i chi eistedd mewn llefydd gwahanol i wneud pethau gwahanol a chael rhagor o ddewis.
- Yr arddangosfeydd.

Cwestiwn 4

Oes unrhyw beth dydych chi ddim yn ei hoffi am eich ysgol bresennol?

Atebion

- Cerrig ar yr iard.
- Dydy'r toiledau ddim yn neis.
- Mae'r ysgol yn oer / does dim llawer o reiddiaduron.
- Y neuadd ginio yn cael ei defnyddio ar gyfer AG a gwasanaethau.
- Gormod o laswellt / rhy gorsiog.
- Hen fyrddau a chadeiriau.
- Mae'r tir y tu allan yn rhy galed / garegog.

Cwestiwn 5

Oes rhywbeth sy'n eich poeni chi am y cynigion?

Atebion

- Poeni bydd llai o offer.
- Poeni na fydd rhai disgyblion yn hoffi ysgol fwy o faint.
- Poeni sut athrawon fydd yno.
- Yn drist oherwydd na fyddan nhw'n cael mynd i'r ysgol newydd (Blwyddyn 4/5/6), ond yn hapus bydd eu brodyr a'u chwiorydd yn cael mynd.
-

Cwestiwn 6

Fyddech chi'n edrych ymlaen at groesawu ffrindiau newydd a sut byddech chi'n eu helpu nhw i deimlo'n gartrefol?

Atebion

- Eu dangos nhw o gwmpas yr ysgol.
- Gofyn iddyn nhw ymuno yn y chwaraeon ar yr iard.
- Eu cyflwyno nhw i'r athrawon.
- Dangos parch tuag atyn nhw.
- Bod yn garedig iddyn nhw.
- Gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus.

Cafodd darnau o bapur gludiog a phapur siart eu rhoi i'r disgyblion a gofynnwyd iddyn nhw ysgrifennu eu sylwadau. Dyma'r atebion ysgrifenedig a gafodd eu rhoi:-

- Lloriau finyl
- Ffenestri wedi'u staenio
- Gwydr gwell
- Waliau cryfion
- Diogelwch gwell x6
- Rhagor o adnoddau x7
- Offer newydd - pennau ysgrifennu, pensiliau, gliniaduron, ipads
- Teganau gwell x2
- Eich ffolder eich hun
- Offer tynnu lluniau
- Chwaraewr cerddoriaeth gwell
- Llyfrgell a chyfrifiaduron x4
- Rhagor o lefydd parcio x3
- Neuadd fwyta fwy o faint a mwy modern x5
- Lle ar gyfer perfformio
- Neuadd chwaraeon
- Cwrt pêl-rwyd x4
- Iard bêl-droed
- Cyrtiau chwaraeon
- Ardal chwaraeon awyr agored
- Rhagor o chwaraeon a gweithgareddau awyr agored
- Pêl-droed x2
- Rhagor o rwystrau
- Pêl-fas
- Achlysuron a chystadlaethau gwahanol
- Talu am ginio drwy ddefnyddio'r bys
- Pryd o fwyd arbennig ar ddydd Gwener
- Rhagor o ddewisiadau bwyd x6
- Byrbrydau a diodydd yn y dosbarthiadau (yn lle mynd allan o'r dosbarth i gael diod)

- Drysau trydan x2
- Ffrâm ddringo x6
- Pwll tywod x2
- Siglenni
- Ardal garddio a thŷ gwydr
- Rhagor o laswellt
- Iard fwy o faint x5
- Rhagor o le storio tu allan x3
- Bwrdd gwyn gwell
- Rhagor o gysgodfeydd / Cysgodfeydd gwell
- Carped enfys ar gyfer y dosbarth meithrin
- Dosbarthiadau lliwgar x6
- Ciwbiclau tŷ bach lliwgar x3 - gwyrdd ar gyfer y bechgyn a phinc ar gyfer y merched.
- Ystafelloedd dosbarth mwy x3
- Dosbarth awyr agored x3
- Goleuadau awtomatig a goleuadau llwyfan x2
- Pleidlais ar gyfer gwisg ysgol newydd i ddisgyblion blwyddyn 6
- Sgriniau ar reiliau fel bydd modd eu symud i fyny ac i lawr
- Set deledu well
- Uchelseinydd a chloch ar gyfer cyhoeddiadau x2
- Ystafell cymorth cyntaf / Ystafell ar gyfer meddyg x2
- Ystafelloedd ar gyfer pobl sydd eisiau rhagor o gymorth x2
- Ystafell ymgynnull / cynnal gwasanaethau
- Ystafell Cymorth Llythrennedd Emosiynol - rhywle i fynd i gael sgwrs gyda rhywun os ydych chi'n poeni
- Ystafell celf x3
- Ystafell ffrwythau
- Ystafell staff
- Ystafell ymlacio
- Ystafell ar gyfer Cyngor yr Ysgol
- Ystafell presenoldeb
- 2 lawr i'r adeilad x4
- Rhagor o achlysuron – diwrnod anifeiliaid anwes
- Arwyddion ar gyfer ystafelloedd
- Arwyddion croesawu x2
- Sied ar gyfer beiciau a sgwteri x4
- Pegiau gwell / ystafell gotiau well □ Ystafell TGCh x5 □ Rhagor o ffynhonnau dŵr
- Seddi mwy meddal
- Desgiau ar wahân
- Byrddau gwell x4
- Celfi gwell x3
- Droriau ar y byrddau
- Rhagor o fasgedi ar gyfer gwaith ychwanegol
- Cadeiriau gwell x2
- Meinciau

- Wal rydych chi'n ei llofnodi wrth i chi adael
- Lle chwarae mwy meddal ar gyfer y plant iau x2
- 3 chyfnod chwarae
- Rhagor o arddangosfeydd
- Rhagor o addurniadau
- Cyfnod cysgu yn y dosbarth meithrin
- Gwres
- Caer yn y gornel ddarllen ar gyfer y dosbarth meithrin a derbyn
- Staff cymorth a bytis plant
- Seren y flwyddyn

Rhoddwyd diolchiadau i'r disgyblion am eu hamser a'u mewnbwn

Daeth y cyfarfod i ben am 3:10pm

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda staff a llywodraethwyr
Ysgol Gynradd Hirwaun**

Dydd Iau 11 Hydref 2018 am 4:45pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i godi adeilad ysgol newydd ar gyfer
Ysgol Gynradd Hirwaun a'r newid arfaethedig yn statws cyfrwng iaith
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn.**

Yn bresennol

Esther Thomas (ET), Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer
Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant
Nicola Goodman (NG), Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr
21^{ain} Ganrif
Lisa Howell (LH), Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain}
Ganrif
Paul Hughes (PH), Swyddog Adnoddau Dynol
24 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Croesawodd Esther Thomas (ET) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y
rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r
amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe
baen nhw'n cael eu gweithredu.

Dyma fanylion y cynlluniau arfaethedig:-

- O 1 Medi 2019, fydd disgyblion newydd sy'n dymuno cael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg ddim yn cael eu derbyn i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn;
- O 1 Medi 2020, bydd dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn cael ei ehangu er mwyn cynnwys cymunedau Trenant a Phen-ywaun; ac
- Ar 1 Medi 2021, byddai disgyblion sy'n mynychu ffrwd cyfrwng Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (gan ddibynnu ar ddymuniadau'r rhieni) yn cael eu trosglwyddo i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun.

Esboniodd ET fod y cynnig yma'n rhan o'r rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21^{ain} Ganrif a thrafod nifer o nodau'r Cyngor mewn perthynas â hyn, gan gynnwys -

- Mynd i'r afael â'r twf yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- Ehangu ysgolion mewn ardaloedd lle mae galw cynyddol am wasanaethau addysgol;
- Mynd i'r afael â chyflwr yr asedau addysgol;
- Sicrhau bod yr asedau ar gael i'r gymuned eu defnyddio.

Cyfeiriodd ET at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopiâu o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.

Eglurodd ET y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi ar gyfer eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd ET mai cyfnod ymgynghori oedd hwn a phe bai'r cynigion yn mynd ymlaen i'r cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y cam hwnnw.

Cafodd dau glip fideo eu chwarae o ddwy ysgol sydd newydd eu hadeiladu yng Nghwmaman a Thonyrefail yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

Sylw

Wrth fy modd fod ysgol newydd ar y gweill. Mae'r ysgol gyfredol yn ddrafftig ac yn llawn asbestos. Rhaid i Hirwaun gael ysgol newydd. Mae wir angen disodli'r adeilad presennol. Hapus i'r cynllun fynd yn ei flaen hyd yn oed os bydd Penderyn yn parhau i fod yn ysgol dwy iaith.

Ymateb

Dywedodd ET fod tystiolaeth gref hefyd am wneud Ysgol Penderyn yn ysgol cyfrwng Cymraeg oherwydd bod nifer y disgyblion sydd eisiau addysg cyfrwng Saesneg yn gostwng.

Sylw

Mae yna hefyd lawer o ddatblygiadau tai newydd yn ardal Hirwaun sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Sylw

Wrth fy modd gyda'r cynigion. Mae'r plant yn Ysgol Hirwaun yn haeddu adeilad llawer gwell.

Ymateb

Rhoddodd ET ganmoliaeth i'r staff ar wneud y gorau o'r amgylchedd dysgu presennol a dweud bod maint y safle yn golygu bod lle i wneud pethau cyffrous yma. Byddai'r gwaith yn cael ei reoli i sicrhau adeiladu diogel ar y safle byw presennol. Mae'r garfan dechnegol yn edrych ar y cynigion ar hyn o bryd. Pwysleisiodd ET nad oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma, ond bod angen gwaith penodol i benderfynu a yw'r cynigion yn hyfyw a beth fyddai'r gost yn debygol o fod. Byddai'r lle ar y safle presennol yn cael ei reoli mewn ymgynghoriad â staff yr ysgol pe bai'r cynigion yn mynd rhagddyn nhw.

Sylw

Mae'n ffodus bod llawer o le ar gyfer yr ysgol.

Ymateb

Eglurodd LH y lleoedd dan do ac awyr agored a gafodd eu darparu ar gyfer Ysgol Gynradd Cwmaman sydd newydd ei hadeiladu.

Sylw

Roedd yr ysgol yn awyddus i gael mannau ar gyfer siarad ac ymlacio mewn unrhyw adeilad newydd.

Ymateb

Cynigiodd ET y cyfle i staff / llywodraethwyr edrych ar yr ysgolion sydd newydd eu hadeiladu fel y gallen nhw weld yr hyn oedd yn bosibl.

Sylw

Yng ngoleuni adroddiad ac argymhellion Donaldson, mae angen adeilad sydd yn addas ar gyfer y dyfodol ac sydd â mannau hyblyg.

Ymateb

Mae cysyniadau yn cael eu rhannu â staff yr ysgol cyn gynted â phosibl ac mae sylwadau a mewnbwn yn cael eu gwahodd gan randdeiliaid.

Cwestiwn

Fyddai effaith ar y staff?

Ymateb

Eglurodd PH ei bod hi'n debygol y byddai nifer y staff yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynyddu gan ddibynnu ar nifer y disgyblion. Roedd yr ysgol dim ond yn cael adeilad newydd. Byddai corff llywodraethu Ysgol Hirwaun yn cael ei annog i gynnig y cyfle i staff ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ymuno â'r garfan o staff yn Ysgol Gynradd Hirwaun.

Rhoddodd ET ei diolchiadau am eu presenoldeb a'u mewnbwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 4:30pm

Ysgol Gynradd Penderyn – Cyfarfod Cyngor yr Ysgol 2pm, 11 Hydref 2018

Yn bresennol:

Gaynor Davies (GD), Cyfarwyddwr Addysg
Andrea Richards (AR), Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Non Morgan (NM), Arweinydd Carfan Trefniadaeth a Llywodraethu Ysgolion
9 aelod o Gyngor Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn
1 aelod o staff

Cyflwynodd GD bawb a rhoi amlinelliad o'r cyfarfod i'r 9 disgybl a oedd yn bresennol (ynghyd â'r athro).

Esboniodd GD y byddai ysgol cyfrwng Saesneg newydd sbon yn Hirwaun i ddisodli'r adeilad presennol a allai ddal 390 o ddisgyblion. Cafodd sylwadau eu gwahodd gan Gyngor yr Ysgol ynglŷn â'r cynnig y byddai Penderyn yn newid i ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig y gall disgyblion o Drenant a Phen-y-waun ei mynychu hefyd.

Cafodd y rhesymau dros hyn eu rhoi:

- i. Byddai'r disgyblion yn cael eu trochi'n llwyr yn y Gymraeg ii.
- Byddai rhagor o weithgareddau ar ôl yr ysgol yn cael eu cynnal yn Gymraeg

- iii. Byddai grwpiau blwyddyn cyfan yn cael eu ffurfio (a fyddai dim angen dosbarthiadau o blant oedran cymysg)
- iv. Byddai cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun (cyfrwng Saesneg) sy'n byw yn ardal Penderyn.

Holi ac ateb

Fydd Saesneg yn yr ysgol newydd?
Cadarnhaodd GD y byddai gwersi Saesneg.

Ydy ein hysgol ni yn ysgol dda?
Cadarnhaodd GD fod Estyn wedi dweud ei bod hi.

Sut mae'r gymuned yn manteisio ar y newid yma?
Dywedodd GD y bydd Penderyn yn parhau i fod yn ysgol gymuned ond bod nifer y disgyblion Saesneg yn llai na nifer y disgyblion Cymraeg.

Pam rydych chi eisiau ein symud ni?
Rhannodd GD gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol a dweud bod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr ysgolion yn ddigon mawr. Mae angen ysgolion o'r radd flaenaf ar ddisgyblion Saesneg hefyd a bydd yr ysgol newydd yn Hirwaun fel hyn.

Ydy hi'n fwy tebygol y byddai disgyblion yn dysgu Cymraeg yn well wrth fod yng nghwmni dysgwyr Cymraeg eraill.
Cytunodd GD ond ychwanegodd fod trochi mewn iaith yn helpu.

Fyddai'r Uned Gymraeg yn mynd i Ysgol Gyfun Saesneg?
Dewis y rhieni yw hynny.

Pam troi'r ysgol yn Ysgol Gymraeg?
Rhoddodd GD wybodaeth am niferoedd disgyblion a strwythurau dosbarthiadau - fel bydd disgyblion o'r un oedran yn cael eu dysgu yn yr un dosbarth.

Cafodd dau glip fideo eu chwarae o ddwy ysgol sydd newydd eu hadeiladu yng Nghwmaman a Thonyrefail yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Awgrymodd GD y dylai unrhyw syniadau da gael eu hysgrifennu ar y taflenni mawr o bapur neu'r darnau o bapur gludiog.

Ychwanegodd GD y dylai unrhyw bryderon (os oes rhai) gael eu nodi ar y taflenni mawr o bapur neu'r darnau o bapur gludiog.

Dangosodd Cyngor yr Ysgol y posteri 'Achub ein Hysgol' i'r swyddogion roedden nhw wedi'u dylunio.

Rhoddodd Cyngor yr Ysgol gyflwyniad - 'Pethau negyddol ynglŷn â throi Ysgol Gynradd Penderyn yn ysgol Gymraeg'.

Dyma'r ymatebion ysgrifenedig a gafodd eu rhoi ar y taflenni mawr o bapur a'r darnau o bapur gludiog:-

- Cyfleusterau chwaraeon newydd
- Gwneud ffrindiau newydd
- Cyfleoedd hyfryd yn Hirwaun
- Rhagor o siaradwyr Cymraeg yn yr ysgol yma
- Rhagor o siaradwyr Cymraeg
- Rwy'n meddwl bod hwn yn syniad da achos bod yr ysgol newydd ar gyfer y genhedlaeth nesaf
- Fydd dim rhaid i blant newydd sydd newydd ddechrau yn ein hysgol ni setlo unwaith eto yn Ysgol Hirwaun.
- Dim ond hanner y gymuned a all ddefnyddio'r ysgol newydd
- Symud ysgol ☹
- Gadael ein ffrindiau
- Mae hwn yn syniad gwael oherwydd bod gan blant frodyr a chwiorydd yn y ffrwd Gymraeg
- Fyddai plant sydd wedi setlo yn Ysgol Gynradd Penderyn ddim yn setlo mor gyflym yn Ysgol Gynradd Hirwaun
- Rwy'n credu bod hwn yn syniad gwael oherwydd bod plant yn hoffi'r ysgol yma
- Fydd brodyr a chwiorydd ifainc ddim yn gallu profi ysgol Penderyn fel y mae hi ar hyn o bryd
- Efallai na fydd pobl eisiau gadael
- Rwy'n credu bod hwn yn syniad gwael oherwydd bydd hanner y gymuned yn gweithio yma ac mae angen inni fynd i ysgol newydd ac rydyn ni'n hoffi'r ysgol yma
- Llai o bobl yn yr ysgol
- Achubwch ein hysgol - gadewch i'r ffrwd Saesneg aros x5

**Ysgol Gynradd Penderyn – Cyfarfod i Staff a Llywodraethwyr 4pm,
11 Hydref 2018**

Yn bresennol:

Gaynor Davies (GD), Cyfarwyddwr Addysg

Andrea Richards (AR), Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Non Morgan (NM), Arweinydd Carfan Trefniadaeth a Llywodraethu Ysgolion

Ellen Williams (EW), Swyddog Adnoddau Dynol

29 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu

Rhoddodd GD ei diolchiadau am eu cyfraniad.

Eglurodd GD mai proses ffurfiol oedd hon. Cael ei ddarllen o sgript achos bod yr un wybodaeth wedi cael ei rhoi i Ysgol Gynradd Hirwaun. Does dim penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma. Dyma ddechrau'r broses ymgynghori. Dylai unrhyw gwestiynau gael eu cadw tan ddiwedd y cyfarfod.

Croesawodd Gaynor Davies (GD) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Dyma fanylion y cynlluniau arfaethedig:-

- O 1 Medi 2019, fydd disgyblion newydd sy'n dymuno cael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg ddim yn cael eu derbyn i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn;
- O 1 Medi 2020, bydd dalgylch Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn cael ei ehangu er mwyn cynnwys cymunedau Trenant a Phen-ywaun; ac
- Ar 1 Medi 2021, byddai disgyblion sy'n mynychu ffrwd cyfrwng Saesneg Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn (gan ddibynnu ar ddymuniadau'r rhieni) yn cael eu trosglwyddo i adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun.

Esboniodd GD fod y cynnig yma'n rhan o'r rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21^{ain} Ganrif a thrafod nifer o nodau'r Cyngor mewn perthynas â hyn, gan gynnwys -

- Mynd i'r afael â'r twf yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- Ehangu ysgolion mewn ardaloedd lle mae galw cynyddol am wasanaethau addysgol;
- Mynd i'r afael â chyflwr yr asedau addysgol;
- Sicrhau bod yr asedau ar gael i'r gymuned eu defnyddio.

Cyfeiriodd GD at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopiâu o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.

Eglurodd GD y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd GD mai cyfnod ymgynghori oedd hwn a phe bai'r cynigion yn mynd ymlaen i'r cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y cam hwnnw.

Cafodd dau glip fideo eu chwarae o ddwy ysgol sydd newydd eu hadeiladu yng Nghwmaman a Thonyrefail yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Soniodd AR am y mathau gwahanol o adeiladau a gwneud adeiladau newydd yn addas ar gyfer y dyfodol (Ysgolion y 21 Ganrif)

Gwahoddwyd cwestiynau (gan GD) gan y sawl oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Eglurodd GD na all swyddogion siarad ag unigolion ond y bydd modd iddyn nhw drefnu i Adnoddau Dynol ddod ar wahân.

Cyfeiriodd GD at dudalen 18 o'r ddogfen ymgynghori ac ymddiheurodd nad oedd y frawddeg gyntaf wedi'i geirio'n gywir ac nad pechu yn erbyn unrhyw staff oedd y bwriad. Roedd hyn i esbonio gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Saesneg - adnabyddodd Estyn hyn.

Cwestiwn

Cwestiwn ynglŷn â'r cyfamod - a oedd yn rhagnodol o ran y Gymraeg a'r Saesneg? Ymateb
AR i wirio hyn.

Sylw

Dydy adeilad newydd ddim yn sicrhau safon uchel o ddysgu. Mae ei mab yn 'St. Johns' - mae'r Gymraeg yn gryfach.

Ymateb

Nododd GD fod Cyngor yr Ysgol hefyd wedi cydnabod hyn. Eglurodd GD ymhellach fod y data yn dangos bod yr angen am y Gymraeg yn cynyddu a'r angen am y Saesneg yn gostwng. Am hynny, rhaid i'r Awdurdod Lleol fwrw'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Maer data hefyd yn dangos y byddai'r disgyblion yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim.

Sylw

Dydy'r rhieni ddim yn hapus y bydd eu plant yn symud i ysgol sydd yn y categori coch.

Sylw

Dywedodd GD fod Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad ar waith - sy'n golygu bod yr ysgol yn cael cymorth i wella. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydweithio'n agos â Chonsortium Canolbarth y De er mwyn gwella safonau.

Cwestiwn

Gofynnodd y staff onid Ysgol Gymuned yw hon? Ydy'r Awdurdod Lleol yn ynysu rhieni Saesneg? Mae Penderyn yn ysgol iach gyda disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol. Fydd hyn ddim yn parhau os yw'r disgyblion yn symud i Hirwaun.

Ymateb

Esboniodd GD fod angen ystyried pob agwedd. Bydd Penderyn yn parhau i fod yn Ysgol Gymuned ond yn ysgol Gymraeg.

Sylw

Newidiodd yr Awdurdod Lleol y dalgylch a dyna pam mae'r nifer wedi gostwng.

Ymateb

Esboniodd AR fod dewis gan rieni o hyd.

Sylw

Mae'r staff yn teimlo bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu gwahanu - erioed wedi bod fel hyn.

Ymateb

Esboniodd GD fod nifer y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn isel iawn - gall hyn gael effaith gymdeithasol negyddol. Mae angen paratoi disgyblion ar gyfer yr ysgol uwchradd a dysgu sgiliau bywyd iddyn nhw. Mae trosglwyddo disgyblion yn haws mewn grwpiau mwy.

Sylw

Doedd y staff ddim yn cytuno

Ymateb

Eglurodd GD na allwch chi ganolbwyntio ar nifer fach, ond bod angen edrych ar bethau yn fwy cyffredinol. Esboniodd AR fod dewis gan rieni o hyd.

Sylw

Mae'r staff o'r farn bod y Cyngor yn dileu'r dewis hwnnw.

Ymateb

Dywedodd GD fod nifer y disgyblion Saesneg a'r galw am addysg drwy'r Saesneg yn gostwng felly rhaid i'r Cyngor ystyried yr hyn sy'n ymarferol.

Sylw

Mae'r staff o'r farn nad yw'r disgyblion yn dod yma oherwydd newidiadau yn y dalgylch.

Ymateb

Pwysleisiodd AR fod dewis gan rieni o hyd.

Cwestiwn

Onid yw'n wir bod hawl gan y 22 o ddisgyblion sy'n byw yn y pentref i gael eu haddysg yn eu pentref? Ymateb

Nododd GD mai dim ond 1.5 milltir i ffwrdd y mae Hirwaun.

Cwestiwn

Neges sylfaenol - gwadu dewis y gymuned. Dewisodd disgyblion yn Hirwaun ddod i Benderyn i gael addysg Saesneg. Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried? Wedi ystyried ehangu dalgylch Penderyn er mwyn creu cynnydd, o bosibl, yn yr Adran Saesneg. Rhoddwyd ffigyrau mis Medi.

Ymateb

Does dim ond modd i GD ac AR ddefnyddio ffigyrau sydd wedi'u cyhoeddi.

Cwestiwn

Y dyddiad olaf yn y ddogfen ar gyfer derbyn disgyblion i'r dosbarth meithrin yw Medi 2019. Onid oes angen gweithredu cyfnod rhybudd o 12 mis?

Ymateb

Mae hyn ar gyfer newid yn y dalgylch.

Sylw

Bydd cyfnod o ddwy flynedd yn gwaethgu'r broblem o ran nifer y disgyblion.

Ymateb

Esboniodd GD y gallai'r nifer a ragwelir newid ond eu bod nhw'n edrych ar gynllun tymor hir.

Cwestiwn

Amcanestyniadau - os yw'r cynnig yn mynd rhagddo a'r nifer yn gostwng, pa mor anodd fyddai hi i ailgyflwyno Saesneg i'r ysgol neu droi'r ysgol yn ysgol dwy iaith unwaith eto?

Ymateb

Eglurodd AR y byddai rhaid ymgymryd â chynnig statudol newydd. Yn ogystal â hynny, targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw adolygu'r ysgolion dwy iaith.

Cwestiwn

Pam mae cymaint o ddisgyblion yn Hirwaun yn dewis addysg y tu allan i'w dalgylch? Ymateb

Dywedodd GD y gall cyflwr a chyfleusterau Hirwaun fod yn anfanteisiol.

Cwestiwn

Pe bai'r 102 o ddisgyblion yn Hirwaun a ddewisodd addysg y tu allan i'r dalgylch a disgyblion o'r 90 o dai newydd i gyd yn mynd i Hirwaun, a fyddai digon o le? Ymateb

Atebodd AR y byddai lle - mae hyn i gyd wedi cael ei ystyried.

Cwestiwn

Os oes modd i chi ddarparu cludiant ar gyfer disgyblion o Benderyn, pam does dim modd i chi wneud hyn y ffordd arall?

Ymateb

Esboniodd AR fod y disgyblion cyfrwng Saesneg yn talu am gludiant i Benderyn ar hyn o bryd. Mae'r Polisi Cludiant yn deg iawn yn RhCT. Efallai bod rhieni o Hirwaun yn anfon eu plant i'r Uned Gymraeg ym Mhenderyn oherwydd y cludiant am ddim - atgyfnerthu dewis y rhieni.

Cwestiwn

A fydd digon o le ar gyfer y galw am addysg Saesneg?

Ymateb

Esboniodd GD fod yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r llefydd dros ben yn rheolaidd.

Eglurodd AR y matrices sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r tueddiadau ar gyfer stadau newydd o dai.

Cwestiwn

Anodd pan fyddwch chi'n dileu rhywbeth - anodd iawn ei ailsefydlu - dal eisiau i'r Awdurdod Lleol ystyried darparu addysg cyfrwng Saesneg yn y ddwy ysgol.

Ymateb

Dywedodd GD fod rhaid dod i benderfyniad sy'n seiliedig ar yr wybodaeth a'r data sydd ar gael, sy'n dangos nad yw'r ffrwd Saesneg yn hyfyw.

Cwestiwn

Mae'r ysgol yn y Rhigos yn cael ei gadael ar ei phen ei hun gyda nifer fach iawn o ddisgyblion - pam dyw'r ysgol honno ddim wedi'i chynnwys yn y cynigion yma? Dileu dewis rhieni - anfanteisiol i'r gymuned.

Ymateb

Eglurodd GD y bydd ysgol gymuned ond ysgol cyfrwng Cymraeg fydd honno - does dim galw am addysg cyfrwng Saesneg.

Cwestiwn

Pam dyw'r ysgol yn y Rhigos ddim wedi'i chynnwys yn y cynigion?

Ymateb

Amlinellodd GD yr angen i'r Awdurdod Lleol edrych ar Ysgolion yr 21 Ganrif a'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chynnig cynlluniau gwybodus - mae angen i staff roi sylwadau ar yr ymgynghoriad.

Sylw

Newidiadau yn y dalgylch - derbyn 19/20 o ddisgyblion Saesneg fesul blwyddyn - o'r farn pe na fyddai'r newidiadau wedi cael eu gwneud, fyddai'r ysgol ddim yn y sefyllfa yma nawr.

Cwestiwn

Neilltuo swyddi - fydd staff yn cael eu trosglwyddo i Hirwaun?

Ymateb

Dywedodd EW fod AD (Adnoddau Dynol) yn fodlon ymweld â'r ysgol a thrafod gydag unigolion. Mae angen gweld sawl aelod ychwanegol o staff bydd angen ar Hirwaun. Byddai AD yn gweithio gyda'r staff yn y ddwy ysgol. Bydd AD yn siarad â'r aelodau o staff yn unigol i weld sut y gallwn ddiwallu eu hanghenion. Byddai adleoli hefyd yn opsiwn.

Ychwanegodd AR fod gan EW a'r garfan Adnoddau Dynol hanes rhagorol ac mae RhCT am gadw staff rhagorol. Mae cyfleoedd ar gael. Mae staff da iawn yma - does dim dadl i hynny.

Sylw

Dylai staff gael eu sicrhau bod swyddi yn ysgol newydd Hirwaun.

Ymateb

Dywedodd AR nad oes modd addo hyn gan fod nifer y staff yn seiliedig ar nifer y disgyblion.

Cwestiwn

Os yw swydd arall yn cael ei chynnig i aelod o staff a dydy'r aelod hwnnw ddim yn derbyn y cynnig, a fyddai modd dileu ei swydd?

Ymateb

Dywedodd EW fod hyn yn ddibynnol ar amgylchiadau.

Cwestiwn

Pam mae Hirwaun yn cael cyfarfod rhieni ond nid Penderyn - a fyddai'r Awdurdod Lleol yn ailfeddwl?

Ymateb

Dywedodd AR fod yr ymgynghoriad yma'n effeithio ar Hirwaun i raddau mwy helaeth.

Sylw

Does dim gwasanaeth bysiau ym Mhenderyn - mae'r lleoliad yn effeithio ar rieni sydd ddim yn gyrru.

Cwestiwn

Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr - newid dalgylch - ydy'r disgyblion presennol yn cael eu trosglwyddo?

Ymateb

Nac ydyn, maen nhw'n aros lle maen nhw - bydd y meini prawf derbyn yn berthnasol pan fydd y newidiadau'n cael eu cymhwyso.

Cwestiwn

Fe allai fod problem os oes gan riant ddisgybl ym Mhenderyn a fydd dim modd i frawd neu chwaer y disgybl hwnnw fynd i Benderyn ym Medi 2019 - beth fydd yn digwydd? Ymateb

Mae angen i rieni anfon llythyr yn rhan o'r ymgynghoriad.

Ysgol Gynradd Hirwaun - Achlysur Ymgynghori â'r Cyhoedd - 27 Tachwedd 2018.

Adborth ysgrifenedig gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori:

- Dydw i ddim eisiau mynd i ysgol arall
- Fydd gât fynediad newydd?
- Fydd y coetir wrth ymyl y brif fynedfa yn dal i fod yno? (gobeithio!)
- Mae'r cynlluniau'n wych, ac fel ysgol, rydyn ni'n methu ag aros.
- Fydd llefydd preifat / ystafelloedd preifat ar gyfer ymyrraeth? Er enghraifft, Cymorth Llythrennedd Emosiynol / THRIVE?